**AGORAWD ('SINFONIE') YN C FWYAF – ALLEGRO CON SPIRITO (SYMUDIAD 1AF) GAN MARIANNE VON MARTINEZ**

CYNLLUN GWERSI I'R DOSBARTH CYNRADD gan Andrea Price

GWYLIO'R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

**Y cyfansoddwr:** **MARIANNE VON MARTINEZ**
*Ynganiad:* *Mari-ANN von mar-TI-nes*

- Cyfansoddwr o Awstria a oedd yn byw yn Fienna dros 250 mlynedd yn ôl.
- Roedd Marianne von Martínez yn ddigon ffodus i gael cymdogion cerddorol talentog iawn! Un o'i chymdogion yn y fflatiau lle roedd hi'n byw oedd y cyfansoddwr ifanc Joseph Haydn, a roddodd wersi piano iddi, a buan iawn y daeth hi'n ddigon da i berfformio yn y llys Ymerodrol.
- Er i Marianne von Martínez ddod yn gerddor uchel ei pharch yn Fienna, doedd menywod ddim yn cael gweithio'n broffesiynol ac felly ni ddaeth mor adnabyddus â'i chyfoedion, Haydn a Mozart.
- Ysgrifennodd Marianne von Martínez dros 200 o ddarnau o gerddoriaeth ar gyfer lleisiau ac allweddellau, ond y symffoni hon ydi'r unig ddarn ar gyfer cerddorfa ganddi sydd wedi goroesi.

**Y gerddoriaeth:** **AGORAWD ('SINFONIE') YN C FWYAF – ALLEGRO CON SPIRITO (SYMUDIAD 1af)**

- Marianne von Martínez sy'n cael ei chydnabod fel y cyfansoddwr benywaidd cyntaf i gyfansoddi symffoni, a elwid ar y pryd yn 'Agorawd'.

© BBC 2024

- Darn hir o gerddoriaeth wedi'i gyfansoddi ar gyfer cerddorfa yw Symffoni. Fel arfer mae ganddo bedair adran (symudiad) gyferbyniol.
- *Allegro con spirito* ydi enw adran (symudiad) gyntaf y symffoni hon. Term Eidaleg yw hwn, sy'n golygu y dylai'r gerddoriaeth gael ei chwarae'n gyflym a bywiog, yn llawn asbri!
- Ystyr "yn C fwyaf" yw bod y gerddoriaeth yng nghywair C fwyaf, cywair llon a hapus. Bydd y nodyn 'C' yn bwysig iawn yn y gerddoriaeth hon.
- Mae gwrthgyferbyniad yn allweddol yn y math hwn o gerddoriaeth (cerddoriaeth glasurol). Gwrandewch am syniadau uchel a thawel cyferbyniol, syniadau yn y cywair mwyaf a lleiaf, ac offerynnau gwahanol yn dod i'r amlwg.

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*

- Gwrando a myfyrio ar ddarn o gerddoriaeth gerddorfaol
- Symud gyda phwrpas mewn ymateb i'r gerddoriaeth
- Creu eu darn/darnau eu hunain o gerddoriaeth gan ddefnyddio offerynnau a llais
- Perfformio fel ensemble
- Dysgu iaith gerddorol sy'n briodol i'r gweithgareddau

*Adnoddau sydd eu hangen:*

- Offerynnau taro'r ystafell ddosbarth (traw a di-draw)

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol LLOEGR (CA2)**

- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, gan ddefnyddio lleisiau a chwarae offerynnau cerddorol gyda chywirdeb, rhuglder, rheolaeth a mynegiant cynyddol
- Gwrando gan roi sylw i fanylion a dwyn i gof synau gyda chof clust cynyddol
- Cyfansoddi cerddoriaeth at amrywiaeth o ddibenion gan ddefnyddio dimensiynau cydberthynol cerddoriaeth

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**

- Gallu defnyddio llais, offerynnau cerdd a thechnoleg cerddoriaeth i arbrofi gyda synau, traw, alaw, rhythm, soniaredd a dynameg
- Defnyddio llais, offerynnau a thechnoleg i greu cerddoriaeth, arbrofi gyda soniaredd.
- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfleu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**

- Rwy'n gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun, a gwneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.

© BBC 2024

- Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu hwyliau, teimladau a syniadau a'r effaith maen nhw'n ei chael ar gynulleidfa.
- Rwy'n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwydnwch a hyblygrwydd

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**

- Canu a pherfformio gydag offerynnau syml o'r cof, o'r glust neu o nodiant i ddatblygu sgiliau lleisiol ac offerynnol
- Gweithio'n greadigol gyda sain drwy greu straeon, lluniau, patrymau, sgyrsiau, a chyfeiliannau cerddorol, a thrwy ymchwilio i ffyrdd o gadw'r gerddoriaeth y maen nhw wedi'i chreu

*Y gwersi yn gryno*

Mae'r cynllun gwaith hwn wedi'i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i'ch plant a'r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

Os nad ydych chi'n gyfarwydd â nodiant cerddoriaeth, gwell fyddai darllen y canllawiau hyn ar BBC Bitesize cyn dechrau'r cynllun gwaith hwn.

***GWERS 1:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gweithgareddau cerddoriaeth a symud<br>Gweithgareddau gwrando a thrafod |
| Bwriad dysgu: | Gwrando'n weithredol ar ddarn o gerddoriaeth gerddorfaol<br>Archwilio cymeriadau cerddorol cyferbyniol trwy symud a tharo'r corff |

***GWERS 2:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Dysgu darn o gerddoriaeth drwy archwilio nodiant rhythm a traw<br>Perfformio darn o gerddoriaeth mewn grŵp mawr |
| Bwriad dysgu: | Darllen a chwarae brawddegau rhythmig byr, gan ddefnyddio symbolau confensiynol ar gyfer hyd nodau<br>Chwarae alawon ar offerynnau taro traw, offerynnau melodig neu allweddellau, gan ddilyn hen nodiant gyda'r nodau o fewn wythfed. |

***GWERS 3:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Cyfansoddi fel grŵp – creu darn o gerddoriaeth i siwtio cymeriad<br>Gwrando a myfyrio ar waith eraill |
| Bwriad dysgu: | Arbrofi gyda thempo, dynameg a chywair i greu cyferbyniad<br>Archwilio technegau cyfansoddi clasurol |

© BBC 2024

***GWERS 4:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Archwilio ffurf gerddorol drwy greu 'Rondo'<br>Myfyrio ar gyferbyniad a chymeriad cerddorol |
| Bwriad dysgu: | Creu 'Rondo' drwy gyfuno gwaith perfformio a chyfansoddi o wersi blaenorol.<br>Dyfnhau dealltwriaeth o gyferbyniad cerddorol drwy fyfyrio a thrafod |

© BBC 2024

# GWERS 1

Gwylio, gwrando a symud!

*Bwriad dysgu*

- Gwrando'n weithredol ar ddarn o gerddoriaeth gerddorfaol
- Archwilio cymeriadau cerddorol cyferbyniol trwy symud a tharo'r corff

1. **Paratoi eich dosbarth**
   Esboniwch i'r dosbarth eich bod yn mynd i ddechrau prosiect cerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar ddarn cyffrous o gerddoriaeth gan Marianne von Martínez, cyfansoddwr dawnus a oedd yn byw yn Fienna, Awstria, dros 250 o flynyddoedd yn ôl. Enw'r darn yw'r Agorawd ('Sinfonie') yn C fwyaf ac rydym yn mynd i wrando ar y symudiad (adran) cyntaf, sef Allegro con Spirito. Yn ôl â ni mewn amser i ddarganfod synau a golygfeydd Fienna fyrlymus!

2. **Gwyliwch y ffilm gyflwyno** a thrafodwch hi. Gallai hyn gyd-fynd yn effeithiol â phynciau hanes, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, neu bynciau ABCh am gydraddoldeb. Awgrymiadau am gwestiynau:
   a. Beth oedd y pethau da am fyw yn y gymuned hon yn yr oes honno?
   b. Beth oedd y pethau drwg am fyw yn y gymuned hon yn yr oes honno?
   c. Oedd unrhyw un o'r cymeriadau eraill y daethon ni ar eu traws yn gyfarwydd i chi? *(Mozart efallai?)*

3. **Symudwch i le mwy** neu cliriwch le yn yr ystafell ddosbarth. Eglurwch eich bod yn mynd i chwarae gêm am y pedwar cymeriad rydyn ni wedi'u cwrdd hyd yn hyn. Bydd y gêm hon yn helpu i ddangos pa mor bwysig yw cyferbyniad yn y gerddoriaeth.


   Bydd **Martínez** yn mynegi ei dicter am beidio â chael ei thrin yn deg gan gymdeithas.
   Bydd **Mozart** yn dangos ei ochr chwareus – mae wrth ei fodd yn partïa!
   Bydd **Haydn** yn creu ymdeimlad o dawelwch a doethineb – yr athro doeth.
   Bydd **yr Ymerodres Maria Theresa** yn dangos parchedigaeth bywyd yn y llys.

   Gallwch gyfeirio at y patrymau symud/rhythm a awgrymir isod, ond efallai yr hoffech hefyd ofyn i'r plant symud yn rhydd o gwmpas y gofod ar y dechrau tra bo'r gerddoriaeth yn chwarae, cyn dechrau dyfeisio'u symudiadau a'u synau taro corff eu hunain i gynrychioli'r cymeriadau hyn.

   Patrymau symud/rhythm a awgrymir:

   Gellir gwneud y gweithgaredd hwn yn fwy heriol trwy gael sawl cymeriad yn perfformio ar yr un pryd. Faint o gymeriadau all y dosbarth eu perfformio ar yr un pryd? Rhowch gynnig arni gyda'r perfformiad cerddorfaol yn y cefndir a hebddo.

© BBC 2024




Gall yr Ymerodres naill ai foesymgrymu neu wneud cyrtsi. I archwilio'r symudiadau ffurfiol hyn ymhellach, gweler [Canllawiau Brenhinol BBC Select ar Foesymgrymu a Gwneud Cyrtsi (YouTube).]

Mae rhythm Mozart yn arbennig o astrus, gan ddangos ei ddawn anhygoel fel cyfansoddwr a'i bersonoliaeth chwareus!

Os yn perfformio pob rhan gyda'i gilydd mewn lle mawr, gallai'r plant sy'n perfformio Mozart a'r Ymerodres sefyll ar yr ymylon neu mewn cylch mawr, tra bod y plant sy'n chwarae Martínez a Haydn yn cerdded o amgylch canol yr ystafell.

Bydd cyfnewid rhannau yn creu her ychwanegol!

4. **Er mwyn mynd â'r gweithgaredd hwn ymhellach,** gellir rhannu'r dosbarth yn grwpiau llai a dal i weithio ar berfformiad ensemble o'r rhythmau hyn gan ddefnyddio offerynnau taro di-draw'r ystafell ddosbarth.
5. **Myfyriwch ar y gêm cymeriadau** trwy wrando ar y perfformiad cerddorfaol, a gweld a all y plant ganfod nodweddion sy'n swnio fel unrhyw un o'r cymeriadau a drafodwyd yn y wers.
6. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Ym mhle roedd Martínez a Mozart yn byw?** | Fienna, Awstria |
| **Beth ydi symudiad?** | Adran o ddarn hirach o gerddoriaeth. Caiff cyfansoddiad cerddorol hir fel symffoni ei rannu'n 3 neu 4 symudiad |
| **Beth yw rhythm?** | Patrwm o synau o wahanol hyd |

© BBC 2024

# GWERS 2

Dod yn gerddorfa - perfformio gyda’n gilydd

*Bwriad dysgu*

- Darllen a chwarae ymadroddion rhythmig byr, gan ddefnyddio symbolau confensiynol ar gyfer hyd nodau
- Chwarae alawon ar offerynnau taro traw, offerynnau melodig neu allweddellau, gan ddilyn hen nodiant gyda nodau o fewn wythfed.

1. **Adolygwch** y prosiect hyd yma drwy wrando ar berfformiad cerddorfaol yr Agorawd (‘Sinfonie’) yn C Fwyaf – Allegro con spirito (symudiad 1af), a gofyn i’r plant drafod unrhyw un o’r cymeriadau y maen nhw’n eu cofio o’r wers flaenorol.

2. **Eglurwch** eich bod yn mynd i ddysgu a pherfformio darn byr o gerddoriaeth fel dosbarth, i’w ddefnyddio eto’n ddiweddarach yn y prosiect ochr yn ochr â’u cyfansoddiadau eu hunain. Gweithiwch ar y rhythmau yn gyntaf, wedyn canwch y rhannau gan ddefnyddio enwau’r nodau cyn symud ymlaen i ddefnyddio offerynnau taro traw/ allweddellau / offerynnau eraill. Wedyn rhannwch y dosbarth i wneud y gwahanol rannau. Mae’r arwydd ailadrodd  yn dangos y dylai’r gerddoriaeth gael ei chwarae ddwywaith. Fe alwn ni’r darn hwn o gerddoriaeth yn “Thema’r Rondo”. Caiff hyn ei egluro yn ddiweddarach yn y prosiect.




© BBC 2024

3. **I fynd â'r gweithgaredd hwn ymhellach,** datblygwch y syniad o gyferbyniad trwy berfformio'r gerddoriaeth yma mewn gwahanol ffyrdd. Sut allwch chi wneud i'r gerddoriaeth swnio'n *Allegro con Spirito*? Allwch chi wneud i'r gerddoriaeth swnio'n dawel a digyffro?

4. **Myfyriwch** ar eich perfformiad drwy wrando ar y perfformiad cerddorfaol eto, a gweld a all y plant sylwi ar unrhyw debygrwydd rhwng y gerddoriaeth mae'r gerddorfa'n ei chwarae a'r gerddoriaeth maen nhw wedi'i chwarae. Pa sgiliau sydd eu hangen i chwarae cerddoriaeth mewn grŵp?

5. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw brawddeg gerddorol?** | Grŵp o fariau sy'n ffurfio brawddeg gerddorol, fel arfer 2 neu 4 bar. |
| **Beth yw bar?** | Ffordd o drefnu cerddoriaeth ysgrifenedig |
| **Allwch chi enwi rhai mathau o guriad y gallech chi eu cael mewn bar o gerddoriaeth?** | Cwaferau, crosiet, minim |
| **Allwch chi enwi rhai o elfennau hen nodiant mewn cerddoriaeth?** | Yr erwydd (5 llinell lorweddol a 4 gofod sy'n bob un yn cynrychioli traw cerddorol gwahanol, arwydd amser, arwydd ailadrodd, clef |

© BBC 2024

# GWERS 3

Cyfansoddi gyda Chyferbyniad

*Bwriad dysgu*

- Arbrofi gyda thempo, dynameg a chywair i greu cyferbyniad
- Archwilio technegau cyfansoddi clasurol

1. **Adolygwch** y prosiect hyd yn hyn trwy wylio'r ffilm, a thrafod y cymeriadau maen nhw wedi dod ar eu traws: Martínez, Haydn, Mozart, a'r Ymerodres.

2. **Eglurwch** eich bod yn mynd i greu darnau o gerddoriaeth mewn grwpiau i siwtio pob cymeriad. Rhannwch y dosbarth yn **bedwar** grŵp, a rhoi un o'r cymeriadau uchod i bob grŵp. Cofiwch bersonoliaeth pob cymeriad:

   Bydd **Martínez** yn mynegi ei dicter am beidio â chael ei thrin yn deg gan gymdeithas.
   Bydd **Mozart** yn dangos ei ochr chwareus – mae wrth ei fodd yn partïa!
   Bydd **Haydn** yn creu ymdeimlad o dawelwch a doethineb - yr athro doeth.
   Bydd **yr Ymerodres Maria Theresa** yn dangos parchedigaeth bywyd yn y llys.


3. **Cyn** rhoi amser i'r grwpiau arbrofi gydag offerynnau, gofynnwch i bob grŵp drafod **sut** y maen nhw am sicrhau cyferbyniad rhwng eu cerddoriaeth nhw a'r grwpiau/cymeriadau eraill.

   **Tempo** - ddylai'r gerddoriaeth fod yn gyflym, yn gymedrol, neu'n araf?
   **Dynameg** - ddylai'r gerddoriaeth fod yn uchel, yn gymedrol, neu'n dawel?
   **Cywair** - ddylai'r gerddoriaeth fod mewn cywair mwyaf (llon) neu leiaf (lleddf)?

   I greu cywair mwyaf, defnyddiwch y nodau **C**, D, E, F, G gyda C fel y nodyn pwysicaf:




   I greu cywair lleiaf, defnyddiwch y nodau **A**, B, C, D, E gydag A fel y nodyn pwysicaf:





© BBC 2024

4. **Rhowch amser i'r pedwar grŵp** ymarfer a datblygu syniadau. Isod mae ambell syniad i ysgogi a chefnogi'r broses gyfansoddi. Gallech ddewis mynd drwy'r syniadau cyn dechrau'r dasg gyfansoddi, neu roi amser i'r grwpiau arbrofi'n rhydd yn gyntaf.

   **Defnyddiodd Martínez, Haydn, a Mozart y technegau hyn i gyfansoddi eu cerddoriaeth:**


Scales - moving up or down the notes in order.




Arpeggios - jumping up or down.




Trills - moving quickly between two notes that are next to each other.




Graddfeydd – symud i fyny neu i lawr y nodau fesul un. *(cywair mwyaf)* *(cywair lleiaf)*

Arpeggios – symud i fyny neu i lawr fesul naid.

Triliau – symud yn gyflym rhwng dau nodyn sydd nesaf at ei gilydd.

Dychmygwch faint o gyferbyniad y gallwch chi ei greu os defnyddiwch chi rai o'r syniadau hyn, **ac** arbrofi gyda'r tempo a'r ddynameg!

5. **Dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd** a gwrandewch ar waith eich gilydd. Gofynnwch i weddill y dosbarth wrando'n ofalus a rhoi adborth. Awgrymiadau am gwestiynau:
   a. Allwch chi ddweud/dyfalu pa gymeriad sy'n cael ei gynrychioli?
   b. Sut mae'r gwahanol grwpiau wedi creu cyferbyniad?
   c. Pa nodweddion allwch chi eu clywed? (uchel, tawel, cyflym, araf, mwyaf, lleiaf, graddfeydd, arpeggios, triliau)

6. **Adolygwch** yr iaith gerddorol a archwiliwyd heddiw trwy wrando ar berfformiad cerddorfaol yr Agorawd ('Sinfonie') yn C Fwyaf – Allegro con spirito (symudiad $1^{af}$) eto a gweld a all y plant nodi unrhyw nodweddion o ran dynameg (uchel/tawel), cywair

© BBC 2024

(mwyaf/lleiaf), neu alaw (graddfeydd, arpeggios, triliau). Atgoffwch y dosbarth mai Allegro con spirito ydi enw’r symudiad a gofynnwch beth mae hynny’n ei olygu.

7. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw’r term am gyflymder y gerddoriaeth?** | Y Tempo |
| **Beth yw dynameg mewn cerddoriaeth?** | Pa mor uchel neu dawel y dylai’r gerddoriaeth fod |
| **Beth yw’r ddau fath o gywair?** | Mwyaf (llon) a Lleiaf (lleddf) |

© BBC 2024

# GWERS 4

Y Grand Finale – creu 'Rondo'

Bwriad dysgu

- Creu 'Rondo' drwy gyfuno'r gwaith perfformio a chyfansoddi o wersi blaenorol.
- Dyfnhau dealltwriaeth o gyferbyniad cerddorol drwy fyfyrio a thrafod

1. **Adolygwch** y gweithgaredd perfformio o wers 2 a'r gweithgaredd cyfansoddi o wers 3, naill ai drwy drafodaeth neu drwy chwarae unrhyw recordiadau a wnaethoch.

2. **Esboniwch** eich bod yn mynd i gyfuno'ch gwaith perfformio a chyfansoddi yn un darn hirach o gerddoriaeth a elwir yn 'Rondo'. Dyma strwythur cerddorol cyffredin iawn mewn symffonïau. Mewn 'Rondo', daw'r brif thema yn ôl o hyd, gydag adrannau cyferbyniol gwahanol rhwng pob thema, ychydig fel rhaglen deledu sydd â'r un credydau agoriadol cyn pennod wahanol.

3. **Ymarferwch** y 'thema Rondo' y buoch chi'n gweithio arni yn ystod gwers 2.

4. **Rhowch amser i bob grŵp** adolygu a gwella ymhellach ar eu cyfansoddiadau i'r cymeriadau o'r wers flaenorol.

5. **Dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd** i berfformio'r 'Rondo' cyfan fel a ganlyn:

   **A - Thema Rondo**
   ***B – Cyfansoddiad cymeriad Marianne von Martínez***
   **A – Thema Rondo**
   ***C – Cyfansoddiad cymeriad Mozart***
   **A – Thema Rondo**
   ***D – Cyfansoddiad cymeriad Haydn***
   **A – Thema Rondo**
   ***E – Cyfansoddiad cymeriad yr Ymerodres Maria Theresa***
   **A – Thema Rondo**

6. **Myfyriwch** ar y profiad o gyd-berfformio darn mor hir a chymhleth o gerddoriaeth. Gwyliwch y perfformiad cerddorfaol un waith eto a meddyliwch am yr holl sgiliau a arweiniodd at gyfansoddi a chwarae cerddoriaeth mor fendigedig! Daliwch i wrando am wrthgyferbyniad a chymeriad.

© BBC 2024

## CAMAU PELLACH

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

- **LLYTHRENNEDD:** Ysgrifennwch stori fer o safbwynt un o'r cymeriadau o'r prosiect, e.e. "Diwrnod ym mywyd Marianne / Mr Mozart / Mr Haydn / Yr Ymerodres". Yn y straeon mwyaf llwyddiannus, bydd y cymeriadau'n rhyngweithio â'i gilydd ac yn archwilio cerddoriaeth gyda'i gilydd.

- **GWAITH CELF:** Tynnwch lun (neu ddylunio ac adeiladu!) tŷ gyda phedair ystafell, ac addurno pob ystafell i weddu i bersonoliaeth pob cymeriad.

## GEIRFA'R TERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR

| **TERM** | **DIFFINIAD** |
|---|---|
| Arpeggio | Patrwm melodig sy'n 'neidio' dros nodau |
| Cywair | Bydd y gerddoriaeth yn y cywair mwyaf (llon) neu leiaf (lleddf). Defnyddir gwahanol raddfeydd a nodau yn y gwahanol gyweiriau. |
| Dynameg | Uchder sain y gerddoriaeth |
| Graddfa | Patrwm melodig o nodau olynol (symud fesul cam) |
| Rondo | Strwythur cerddorol gyda thema sy'n dychwelyd a phenodau cyferbyniol. |
| Tempo | Cyflymder y gerddoriaeth |
| Tril | Symud yn gyflym rhwng dau nodyn sydd wrth ymyl ei gilydd |

© BBC 2024